# Urdd i Bawb

Cynllun Strategol
Urdd Gobaith Cymru
2023-2028

Urdd



# Cynnwys


1. Nod yr Urdd 4
2. Urdd i Bawb 6
3. Ein Gwerthoedd 6
4. Yr Urdd, adeiladu ar ein sylfaen gadarn 8
5. Ein Gweledigaeth 10
6. Gweithredu ein Cynllun Strategol 11
7. Monitro ein Cynllun Strategol 13
8. Prif nodau ein Cynllun Strategol 15
9. Rheolaeth a Llywodraethiant yr Urdd 16
10. Cyd-destun Polisi a Strategaethau Cymru 20
11. Yr Urdd a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 21
12. Diolchiadau 23
13. Gwobrau a chydnabyddiaeth allanol 24

# 1. Nod yr Urdd

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfleoedd a phrofiadau, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn hyderus.

Rydym yn fudiad uchelgeisiol sy'n arloesi wrth ymestyn ein cynnig i bawb.

Rydym wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang a berchir yng Nghymru. Mae'r Urdd yn hanfodol i ddyfodol yr iaith Gymraeg ac i Gymru.

Rydym yn parhau i wasanaethu ein cynulleidfa graidd ond yn cydnabod yr angen a'r awydd i estyn allan ymhellach at blant a phobl ifanc ag anableddau, sy'n perthyn i'r gymuned LHDTC+, a ddaw o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, sy'n aelodau o leiafrifoedd ethnig, o ardaloedd difreintiedig, ynghyd â'r rheiny sy'n siaradwyr Cymraeg newydd.

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru, mudiad ieuenctid mwyaf Cymru yn 1922. Rydym yn fudiad unigryw lle mae'r Gymraeg yn ganolog i'n gwasanaeth ac sy'n ymateb i ofynion plant a phobl ifanc heddiw.  Nid oes ei thebyg yn y byd ac rydym yn cael ein cydnabod yn rhyngwladol am arwain y ffordd yn narpariaeth ieuenctid llwyddiannus drwy iaith leiafrifol.

Mae'r profiadau rydym yn eu cynnig yn amrywio o gyfleoedd chwaraeon, gwaith ieuenctid, celfyddydol, preswyl, dyngarol, awyr agored, rhyngwladol, prentisiaethau, hyfforddi a gwirfoddoli.

Mae effaith ein gwaith yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a chymdeithas, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.



Urdd

# 2. Urdd i Bawb

Yn dilyn dathlu ein canmlwyddiant, edrychwn yn hyderus at y ganrif nesaf o ddarpariaeth i blant a phobl ifanc Cymru, a bydd ein Cynllun Strategol 'Urdd i Bawb' yn gosod gweledigaeth glir i'n gwaith hyd at 2028.

Fel mudiad rydym yn cydnabod bod o hyd le i wella er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru, rywbryd yn ei ieuenctid, trwy'r Urdd, yn profi cyswllt gyda'r Gymraeg a dealltwriaeth o'i werth.

Trwy gydweithio gyda phartneriaid, anelwn i sicrhau bod yr Urdd yn perthyn i bawb, a bod ein gwasanaethau'n parhau i fod yn gyfoes ac yn adlewyrchu anghenion Cymry ifanc heddiw.

Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb arnom fel mudiad i sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru, boed yn siaradwyr Cymraeg, yn siaradwyr Cymraeg newydd neu sydd ag ymdeimlad tuag at yr iaith, yn profi gwerth yr Urdd.

# 3. Ein Gwerthoedd

## Cefnogi

- Ein haelodau
- Defnyddio'r Gymraeg
- Lles plant a phobl ifanc
- Ein gwirfoddolwyr
- Ein staff

## Parchu

- Yr iaith
- Pob amrywiaeth a gallu
- Ein gilydd
- Ein diwylliant a diwylliannau eraill
- Ein gwahaniaethau

## Ymbweru

- Dros Gymru a'n pobl
- I wneud gwahaniaeth
- Bod yn ddyngarol wrth eraill

Urdd



# 4. Yr Urdd, adeiladu ar ein sylfaen gadarn

Mae'r cynllun hwn yn ddilyniant i'n Cynllun Corfforaethol 2019-2022. Er yr heriau a wynebwyd yn ystod y cyfnod hwn oherwydd Covid, llwyddwyd i gyflawni gwaith sylweddol gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Cafodd Covid effaith niweidiol ar yr Urdd, a bu rhaid adweithio ac addasu i ddygymod a'r her fwyaf erioed i ddyfodol y mudiad.

Caewyd ein gwersylloedd, collwyd incwm, gohiriwyd digwyddiadau cenedlaethol celfyddydol a chwaraeon y mudiad a bu rhaid lleihau'n sylweddol ein lefelau staffio er mwyn goroesi. Effeithiodd Covid hefyd ar les plant a phobl ifanc Cymru a'u hymgysylltiad â gweithgareddau yn y Gymraeg.

Dangosodd yr Urdd wytnwch, hyblygrwydd a blaengaredd yn dilyn y cyfnod hwn, a llwyddwyd i ailadeiladu ein lefelau staffio a throsiant. Diolchwn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru, ein partneriaethau, gwirfoddolwyr, staff a'n haelodau yn ystod y cyfnod yma.

Erbyn heddiw, yr Urdd yw un o gyflogwyr mwyaf yn y Gymraeg ynghyd â'r prif ddarparydd Prentisiaethau drwy'r Gymraeg oddi fewn y trydydd sector yng Nghymru.

## Gorolwg 2019 hyd at 2023

Heddiw rydym yn falch i gydnabod bod yr Urdd wedi goddiweddu heriau Covid ac wedi ail adeiladu ein strwythur staffio ac ariannol er mwyn cychwyn cyfnod newydd gyda tirlun mwy sefydlog.

| | **Cyn Covid 19/20** | **Yn ystod Covid 20/21** | **Ôl Covid 22/23** |
|---|---|---|---|
| **Trosiant (yn cynnwys grantiau cyfalaf)** | £11,950,546 | £9,560,952 | £18,200,000 |
| **Gweithlu** | 324 | 180 | 311 |


DOHA ENGLISH SPEAKING SCHOOL
Urdd

# 5. Ein Gweledigaeth

## Ein Hamcanion Strategol

### Urdd i Bawb – darpariaeth gyson a theg sy'n croesawu amrywiaeth

Byddwn yn:-

- sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymestyn allan ac yn agored i blant a phobl ifanc ag anableddau, sy'n perthyn i'r gymuned LHDTC+, a ddaw o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, sy'n aelodau o leiafrifoedd ethnig, o ardaloedd difreintiedig, ynghyd â'r rheiny sy'n siaradwyr Cymraeg newydd
- creu a meithrin partneriaethau strategol newydd, er mwyn ymestyn cyrhaeddiad yr Urdd
- teilwra a chynyddu darpariaeth benodedig i siaradwyr newydd (dysgwyr).

### Ein Cynnig – sy'n apelgar, cyfoes ac yn hyblyg

Byddwn yn:-

- parchu llais pobl ifanc er mwyn llunio darpariaeth sydd yn agored i bawb ac yn gyfoes
- cynllunio ein darpariaeth i gefnogi llesiant plant a phobl ifanc
- trwy ein strwythur darparu cenedlaethol cymunedol, sicrhau nad yw tlodi economaidd a lleoliad daearyddol yn atal plant a phobl ifanc rhag ymwneud â'n gwasanaethau.

### Ein Gwirfoddolwyr - y llwybrau cefnogi ac uwchsgilio

Byddwn yn:-

- cryfhau ein strwythurau ar draws pob adran, er mwyn denu a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc o bob cymuned
- sicrhau bod Llywodraethiant yr Urdd yn gynrychiolaeth o ac yn gynhwysol o Gymru heddiw, ac yn gallu gweithredu ar lefel strategol i gefnogi gwaith Urdd Gobaith Cymru
- sicrhau cynrychiolaeth o Gymry Ifanc (18 - 25) ar bob Bwrdd Strategol yr Urdd
- sicrhau cynllun strwythuredig o gefnogaeth a hyfforddiant i'n gwirfoddolwyr.

### Ein Gweithlu - sy'n gymwys, hyblyg a chynhwysol

Byddwn yn:-

- denu, cefnogi a pharchu ein gweithlu
- sicrhau bod yr Urdd yn lle diogel a hapus i weithio ynddo
- cynllunio i ddenu a dathlu amrywiaeth o fewn ein gweithlu
- buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy ehangu ein cynnig i brentisiaethau
- buddsoddi yn ein gweithlu drwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.

### Ein Hamgylchedd - Urdd sy'n amgylcheddol gyfrifol

Byddwn yn:-

- gweithredu i leihau ôl troed carbon gwersylloedd yr Urdd i gyrraedd Net Sero
- gweithredu gyda'n gilydd er mwyn cyrraedd targed Net Sero'r Urdd erbyn 2050 a diogelu'r amgylchedd i bawb.

### Ein heiddo sy'n apelgar ac yn addas at anghenion y dyfodol

Byddwn yn:-

- cynnal a pharhau i ddatblygu a diweddaru eiddo'r Urdd yn gyfleusterau apelgar a hygyrch sy'n addas i'r dyfodol.

# 6. Gweithredu ein Cynllun Strategol

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn egluro ein dyheadau a'n blaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol, bydd ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, staff a'r Byrddau Strategol yn adolygu ein blaenoriaethau a'n nodau yn rheolaidd.

O fewn ein strwythur Llywodraethiant, mae pob adran o wasanaeth o fewn yr Urdd yn atebol i Fwrdd Strategol.

I ddod a'n Cynllun Strategol yn fyw bydd pob adran gwasanaeth, gyda chefnogaeth ein Byrddau Strategol, yn llunio Cynllun Gweithredu 5 mlynedd ac yn ei fonitro yn flynyddol gyda'i byrddau unigol.

## Y galluogwyr i wireddu ein Blaenoriaethau Strategol

**Buddsoddiad** ariannol a grantiau allanol

**Gwirfoddolwyr ar ein byrddau ac yn ein cymunedau**

**Y diwylliant cywir** a bod yn gyflogwr sy'n gefnogol ac yn groesawgar i bawb

**Partneriaethau** ac ymgysylltiad

**Technoleg a data** i gynllunio, gweinyddu a hyrwyddo ein gwasanaethau

**Agwedd agored a hyblyg** i gydnabod newid a gwella


Urdd

# 7. Monitro ein Cynllun Strategol

Bydd monitro ein Cynllun Strategol yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i wireddu ein gweledigaeth.

Bydd y Byrddau Unigol (Bwrdd Adnoddau Dynol, Bwrdd Busnes, Bwrdd Chwaraeon a Phrentisiaethau, Bwrdd y Celfyddydau a'r Bwrdd Gwersylloedd) yn monitro'r cynnydd yn erbyn pob un o'n hamcanion a'n nodau strategol. Disgwylir i bob Bwrdd yn flynyddol neilltuo cyfarfod penodedig i fonitro a gwerthuso'r Cynllun Gweithredol a'r blaenoriaethau adrannol. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gan Gadeirydd pob Bwrdd a'r Prif Weithredwr i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn flynyddol.

Bydd monitro rheolaidd o'r Cynllun Strategol hefyd yn digwydd yng nghyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli yr Urdd.

Trwy graffu ac adolygu, byddwn yn sicrhau bod ein nodau yn berthnasol ac yn realistig. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddatblygu a gweithredu camau ymateb i ddigwyddiadau a sefyllfaoedd annisgwyl.

Byddwn yn monitro a chyfathrebu ein cynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol drwy ein hadroddiad blynyddol.




Urdd

Urdd

# 8. Prif nodau ein Cynllun Strategol

Isod mae'r prif nodau strategol rydym am eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Strategol. Bydd cynlluniau gweithredu ein hadrannau yn manylu ar y camau gweithredu i ddatblygu, gwella ac ymestyn ein darpariaeth graidd.

## Prif nodau corfforaethol 2023-2028

- Sicrhau cynnydd yn y niferoedd o blant a phobl ifanc ag anableddau, o'r gymuned LHDTC+, o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, ardaloedd difreintiedig a'r siaradwyr Cymraeg newydd sy'n ymwneud gyda'r Urdd.
- Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol, i bobl ifanc dderbyn gwaith ieuenctid yn y Gymraeg sydd yn gyson ac o ansawdd ymhob rhan o Gymru.
- Sefydlu Gwasanaeth Celfyddydol Cymunedol Cenedlaethol lle mae cynnig celfyddydol yn gyson ar draws Cymru.
- Ymestyn y dewis o lwybrau hyfforddi newydd yr Adran Prentisiaethau gan ychwanegu maes y celfyddydau a gwaith ieuenctid.
- Ehangu cyrhaeddiad Gwasanaethau Awyr Agored ar draws Cymru.
- Ehangu cyfnodau a chynnig gwersylloedd haf yr Urdd.
- Cynnal rhaglen buddsoddiad cyfalaf i sicrhau bod ein heiddo yn addas ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc heddiw.
- Ymestyn ein partneriaethau a'n cynnig rhyngwladol i bobl ifanc, ar draws holl wasanaethau'r Urdd.
- Creu strategaeth gyfathrebu 5 mlynedd gyda phwyslais ar farchnata digidol er mwyn ymestyn ein cyrhaeddiad i'n haelodau a'n rhanddeiliaid.
- Parhau i gynnal a diogelu cefnogaeth i ymestyn darpariaeth chwaraeon cwbl gynhwysol yn y Gymraeg ar draws cymunedau ac ysgolion Cymru.
- Cryfhau ein strwythurau er mwyn denu a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc o bob cymuned.
- Creu system gadarn i feincnodi a mesur cynnydd prif ddangosyddion llwyddiant.
- Llunio a gweithredu cynllun ymchwil a mewnwelediad i werthuso ein gwasanaethau a datblygiad dinasyddiaeth ymysg pobl ifanc.
- Creu strategaeth datblygu'r gweithlu er mwyn denu, cefnogi a datblygu'r gweithlu.
- Gweithredu a pharhau i ddatblygu systemau TG sy'n sicrhau profiad hawdd a gwybodus i'n haelodau a'n partneriaid i ymwneud gyda'r Urdd.
- Ehangu apêl yr Eisteddfod er mwyn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd i ymwneud a'r celfyddydau yng Nghymru.
- Cynnal asesiad amgylcheddol blynyddol i fonitro'r cynnydd tuag at darged Sero Net yr Urdd.

# 9. Rheolaeth a Llywodraethiant yr Urdd

Mae'r Urdd yn elusen ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Trwy'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Byrddau Strategol ceir prosesu cadarn i ddatblygu a chraffu ein gwaith.

Yn ystod 2022, yn dilyn ymgynghoriad ar argymhellion y Bwrdd Ymddiriedolwyr, ail-strwythurwyd Llywodraethiant yr Urdd i gynnwys 6 Bwrdd Strategol sy'n adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolwyr.

Mae parchu lleisiau ein pobl ifanc wrth wraidd ein strwythurau newydd. O ganlyniad mae pobl ifanc 18-25 oed yn aelodau llawn ar ein holl Fyrddau ac yn ganolog i drafodaethau a chyfeiriad yr Urdd at y dyfodol.

Nifer yr Ymddiriedolwyr: 15


Nifer y Llywyddion Anrhydeddus: 3

Nifer y bobl ifanc: 15


Nifer yr aelodau ar ein Byrddau Strategol: 36

Rydym am i strwythur Llywodraethu'r Urdd esblygu, ac yn ddibynnol ar gyllid, mae'n fwriad gennym sefydlu Bwrdd Gwaith Ieuenctid.


## Ein strwythur Llywodraethu



# Ein Strwythur Adrannol



# Ein Strwythur Adrannol - Gwersylloedd




Urdd

# 10. Cyd-destun Polisi a Strategaethau Cymru

Bydd gweithredoedd y Cynllun Strategol hwn yn cefnogi ac yn dylanwadu'r confensiynau, polisïau a'r strategaethau isod:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant
- Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Cwricwlwm i Gymru
- Strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru
- Strategaeth Chwaraeon Cymru
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru a'r adroddiad 'Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru' (Medi 2021),
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol (2022)
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (2023)
- Strategaeth Ryngwladol i Gymru, Llywodraeth Cymru (2020)
- Blaenoriaethau Rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru (2021-25)
- Gwaith Ieuenctid yng Nghymru; Egwyddorion a Dibenion (2022)
- Addysg a hyfforddiant ôl orfodol: gweledigaeth strategol (2021)

# 11. Yr Urdd a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol

Mae ein gweledigaeth 'Urdd i Bawb' yn cyfrannu at nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dyma enghreifftiau o'n gweithredoedd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

**Cymru lewyrchus**

- Rydym yn cyflogi 320 o staff, 50% ohonynt o dan 30 oed, ar draws Cymru ac yn bennaf yng Nghymru wledig.
- Buddsoddwyd dros £10m yn ein gwersylloedd i sicrhau adnoddau apelgar ac o ansawdd yn ein cymunedau.
- Trwy ein cynllun prentisiaethau, rydym yn darparu'r sgiliau sydd angen ar weithlu cyfrwng Cymraeg y dyfodol. Yn dilyn asesiad allanol, gyfrifiwyd bod werth economaidd ein gwasnaethau.  £32M i economi Cymru (2018).

**Cymru gydnerth**

- Mae'r Urdd yn elusen sydd yn ceisio gweithredu model incwm cynaliadwy, gyda llai na 30% o'n trosiant o £18.2M o ffynonellau cyhoeddus.

**Cymru iachach**

- Mae 20,000 o blant a phobl ifanc yn ymgysylltu gyda'n rhwydwaith o glybiau chwaraeon cymunedol wythnosol a'n gweithgareddau awyr agored.
- Mae ein cynnig gwaith ieuenctid a phreswyl yn galluogi pobl ifanc i drafod a derbyn cefnogaeth yn ymwneud ag ymarfer corff ac i drafod materion iechyd meddwl a lles emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol.
- Mae ein cynllun cenedlaethol #felmerch i annog merched yn eu harddegau i ymgysylltu gyda chwaraeon.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

- Rydym trwy 'Urdd i Bawb' yn ymestyn tu hwnt i'n gynulleidfa graidd ac yn nodi yr angen a'r awydd i estyn allan ymhellach i blant a phobl ifanc ag anableddau, o'r gymuned LHDTC+, o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, ardaloedd difreintiedig a siaradwyr Cymraeg newydd.
- Mae cynlluniau Aelodaeth am £1, cronfa Cyfle i Bawb, a mynediad am ddim i weithgareddau cenedlaethol wedi eu targedu at deuluoedd incwm isel ac ardaloedd difreintiedig.
- Trwy rannu a gweithredu y Neges Heddwch ac Ewyllys Da Ieuenctid Cymru rydym am leihau rhagfarn ac anwybodaeth gan bwysleisio'r hyn sydd yn gyffredin i holl blant y byd.

**Cymru o Gymunedau cydlynus**

- Rydym yn weithredol o fewn cymunedau ar draws Cymru, yn dod â phobl ynghyd i gyfrannu at weithgareddau chwaraeon, cymunedol a diwylliannol lleol a chenedlaethol.
- Mae gan bobl ifanc sydd yn aelodau o'n Byrddau Strategol ac ar ein fforymau Ieuenctid ar draws Cymru, lais ym mhenderfyniadau'r Urdd.
- Croesawyd 333 o ffoaduriaid o Afghanistan a Wcráin i ymgartrefu yn ein cymunedau a chael mynediad at yr iaith, diwylliant ac addysg Gymraeg.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

- Rydym yn fudiad unigryw i Gymru ac yn y byd, gyda'n holl ddarpariaeth yn y Gymraeg.
- Trwy ddarparu cyfleoedd i bawb rhwng 8-25, yn siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg newydd, rydym yn sicrhau mynediad at y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Yr Urdd yw prif ddarparydd cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

- Rydym yn grymuso pobl ifanc yn ddinasyddion y dyfodol, i fod yn falch o'u hiaith a'u treftadaeth, i fod yn agored, ac i sicrhau bod pobl ifanc Cymru yn cael eu hysbrydoli i fyw i'r gwerthoedd hyn.
- Rydym yn amgylcheddol gyfrifol yn ein penderfyniadau ac wrth gynnal ein gweithgareddau.
- Bydd ein 4ydd gwersyll, Pentre Ifan, ein gwersyll amgylcheddol a lles yng Ngogledd Sir Benfro, yn annog pobl ifanc i gysylltu â natur a'r amgylchedd ac i brofi ffordd o fyw mwy cynaliadwy.

# 12. Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'n holl gyllidwyr a phartneriaid ar draws y sector wirfoddol, gyhoeddus a phreifat am eu cefnogaeth i'n galluogi i ddarparu'r gwasanaethau a phrofiadau o ansawdd er budd pobl ifanc Cymru a'r Gymraeg. Edrychwn ymlaen at gydweithio i wireddu ein gweledigaeth, Urdd i Bawb, ac ymestyn ein partneriaethau presennol a datblygu rhai newydd.

Diolch arbennig i'n holl wirfoddolwyr, am eich amser, eich cefnogaeth a'ch hymrwyiad. Trwy eich cyfraniad chi rydym yn medru cynnig profiadau unigryw ac o ansawdd i blant a phobl ifanc Cymru.

Ac i'n haelodau, diolch yn fawr i chi am ymuno yn yr hwyl wrth fynychu a chefnogi ein gweithgareddau.

**Diolch**

# 13. Gwobrau a chydnabyddiaeth allanol

ADVENTURE ACTIVITIES LICENSING AUTHORITY
AALA

GWOBRAU DEWI SANT
ST DAVID AWARDS

GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU
WELSH CHARITY AWARDS
Enillydd | Winner 2022

insport

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru
The Quality Mark for Youth Work in Wales
EFYDD/BRONZE
ARIAN/SILVER
AUR/GOLD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflog Byw i Gymru

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG

AIAC
ADVENTUREMARK
A

insport
TRYDYDD SECTOR
THIRD SECTOR
AUR GOLD

Arts & Business Cymru

Council for Learning Outside the Classroom